CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
(STRYDOEDD AMRYWIOL, PONTYPRIDD)
GORCHYMYN (CAU FFYRDD DROS DRO) 2018

Bydd y Gorchymyn yma'n cau'r rhannau canlynol o'r ffyrdd dros dro: -

1. Mill Street, o'i chyffordd â Ffordd y Rhondda, i'r de-ddwyrain am bellter o 158 metr a'r ffordd gyswllt ddienw rhwng Ffordd y Rhondda a Mill Street

Llwybr Amgen – O ochr orllewinol y rhan sy wedi'i chau, ewch ar hyd Ffordd y Rhondda i ochr ddwyreiniol y rhan sy wedi'i chau.

2. Ffordd Liniaru Fewnol Pontypridd o bwynt 40 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Hen Heol Sardis, i'r gogledd-ddwyrain i'r gyffordd â Stryd y Felin, a Stryd y Felin, o bwynt 158 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Ffordd y Rhondda, i'r de-ddwyrain am bellter o 56 metr.

Llwybr Amgen – O ochr orllewinol y rhan sy wedi'i chau, ewch ar hyd Ffordd Liniaru Fewnol Pontypridd a Ffordd y Rhondda i ochr ddwyreiniol y rhan sy wedi'i chau.

3. Hen Heol Sardis

Llwybr Amgen i gerddwyr a beicwyr – O ochr ddwyreiniol y rhan sydd wedi'i chau, ewch ar lwybr troed Heol Sardis i ochr orllewinol y rhan sydd wedi'i chau. Dylai beicwyr ddod oddi ar eu beiciau a dilyn y llwybr i gerddwyr. Ar gyfer cerddwyr/beicwyr sy'n teithio i'r cyfeiriad arall, dilynwch y cyfarwyddiadau uchod yn y drefn wrthdro.

4. Bydd Gorchymyn "Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Canol Tref Pontypridd) (Gwahardd Gyrru, Clirffordd Safle Bws 24 Awr a Gwahardd Troi i'r Dde) 2001" yn cael ei atal dros dro lle mae'n cyfeirio at Wahardd Gyrru a Chlirffyrdd Safle Bws 24 Awr yn Stryd Catrin a Ffordd y Rhondda er mwyn caniatáu cerbydau ac eithrio bysiau, cerbydau hacni neu feiciau i fynd ar y rhannau yma o'r ffordd am gyfnod y Gorchymyn.

Bydd Gorchmynion ar gyfer **cau'r ddwy ffordd gyntaf** yn dod i rym yn ôl yr angen rhwng 16 Gorffennaf a 31 Awst 2018 neu hyd nes y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau.

Bydd arwyddion yn cael eu codi ar y safle saith niwrnod cyn cau'r ffordd er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd am ba rannau o'r ffordd fydd yn cael eu heffeithio a phryd bydd y rhannau hynny ar gau.

Bydd Gorchmynion ar gyfer **cau'r drydedd ffordd** yn dod i rym yn ôl yr angen rhwng 25 Gorffennaf a 31 Awst 2018 neu hyd nes y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau.

Mae angen y cyfyngiad fel bydd modd cynnal y gwaith ar y ffyrdd neu yn eu hymyl.

Sicrheir mynediad ar gyfer cerbydau'r gwasanaethau brys ond **NID** ar gyfer cerddwyr.

RHONDDA CYNON TAFF COUNTY BOROUGH COUNCIL
(VARIOUS STREETS, PONTYPRIDD)
(TEMPORARY ROAD CLOSURE) ORDER 2018

The effect of the Order will be to temporarily close the following sections of roads: -

1. Mill Street, from its junction with Rhondda Road, south eastwards for a distance of 158 metres and the unnamed link road between Rhondda Road and Mill Street

Alternative Route – From the western side of the closure, proceed via Rhondda Road to the eastern side of the closure

2. Pontypridd Inner Relief Road from a point 40 metres north west of its junction with Old Sardis Road, north eastwards to its junction with Mill Street, and Mill Street, from a point 158 meters south eastwards of its junction with Rhondda Road, south eastwards for a distance of 56 metres

Alternative Route – From the western side of the closure, proceed via Pontypridd Inner Relief Road and Rhondda Road to the eastern side of the closure

3. Old Sardis Road

Alternative Route for pedestrians and cyclists – From the eastern side of the closure proceed via the Sardis Road footway to the western side of the closure – Cyclists are to dismount and follow the pedestrian route. For pedestrians/cyclists travelling in the opposite directions, reverse the directions given above.

4. The "Rhondda Cynon Taff County Borough Council (Pontypridd Town Centre) (Prohibition of Driving, 24 Hour Bus Stop Clearway and Prohibition of Right Hand Turn) Order 2001" will be temporarily suspended where it refers to the Prohibition of Driving and 24 Hour Bus Stop Clearways in Catherine Street and Rhondda Road to allow vehicles other than a bus, hackney carriage or cycle to proceed in these lengths of road for the duration of the order

Closures 1 and 2 will come into operation as and when required from 16th July to 31st August 2018 or until such time as the works are completed

Signing will be in place 7 days prior to the commencement of the closures to inform the public which sections of road will be affected and when they will be in operation

Closure 3 will come into operation from 25th July 2018 to 31st August 2018 or until such time as the works have been completed.

The restriction is necessary to enable works to be carried out on or near the roads
Access will be maintained for emergency service vehicles but **NOT** for pedestrians